



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

29 Mehefin 2020

Annwyl Gydweithiwr

Adolygiad o Bartneriaethau Strategol

Byddwch yn ymwybodol bod adolygiad o bartneriaethau strategol wedi'i gynnal yn ystod ail hanner y flwyddyn ddiwethaf. Rwy'n falch yn awr o amgáu'r adroddiad terfynol.

Ar ddechrau'r arolwg, gofynnwyd am eich barn. Mae'r safbwyntiau hynny, ynghyd â chyfweliadau ychwanegol mewn gwaith maes, wedi'u dwyn ynghyd yn yr adroddiad terfynol. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch ichi am gyfrannu at yr adolygiad.

Cyflwynwyd yr adroddiad i Gyngor Partneriaeth Cymru ar 11 Mehefin 2020 a chafodd ei nodi gan yr aelodau.

Mae'r adroddiad terfynol yn amlinellu canfyddiadau'r adolygiad ac yn gwneud nifer o argymhellion ar sut y gellir rhesymoli a symleiddio'r maes partneriaethau strategol. Byddwn yn edrych ar yr argymhellion ac yn ystyried sut yr ydym ni yn Llywodraeth Cymru am eu datblygu, gan gynorthwyo'r rhai sy'n ymwneud â phartneriaethau strategol i ddatblygu'r argymhellion yn lleol.

Yn gywir

Claire Germain
Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid a Phartneriaethau Llywodraeth Leol

Adolygiad o Bartneriaethau Strategol ADRODDIAD TERFYNOL

CYNNWYS

Crynodeb Gweithredol	2
Cefndir	4
Methodoleg.....	8
Diffiniad	11
Alinio Partneriaethau Strategol	13
Rhwystrau i Alinio a Rhesymoli Partneriaethau	17
Llywodraethu ac Atebolrwydd Partneriaethau	18
Argymhellion	22
Atodiad A – Cychwyn yr Adolygiad.....	24
Llythyr gan Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.....	24
Cylch Gorchwyl.....	26
Atodiad B – Adolygiad o Bartneriaethau Strategol – y dystiolaeth a gasglwyd....	29
Atodiad C – Statws Deddfwriaethol Partneriaethau Strategol.....	31
Atodiad D – Llythyr oddi wrth DMHSS a DMHLG ynghylch y berthynas rhwng Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol	36
Atodiad E – Y berthynas rhwng Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol	38

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r adolygiad hwn yn ganlyniad i gydweithio rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyddfederasiwn y GIG yng Nghymru i ddatrys problem gyffredin i symleiddio'r cymhlethdodau sy'n codi wrth i wasanaethau cyhoeddus Cymru gydweithio.

Mae'n werth nodi o ddechrau'r adroddiad hwn mai ei gwmpas oedd chwilio am ffyrdd o symleiddio ac alinio'r sefyllfa bartneriaeth, gan weithio, lle bo hynny'n bosibl, yn unol â'r strwythurau polisi ac arweinyddiaeth presennol. Comisiynwyd yr adolygiad yn ystod cyfnod pan oedd nifer o adolygiadau eraill i bartneriaethau penodol yn mynd rhagddynt, fel Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Felly, mae'r adolygiad hwn wedi ceisio lleihau'r baich ychwanegol ar wasanaethau cyhoeddus ac wedi ystyried ac ymgorffori arsylwadau o'r adolygiadau ehangach hyn.

Gofynnwyd am farn i gyfrannu at yr adolygiad hwn a derbyniwyd cyflwyniadau ysgrifenedig gan 33 o sefydliadau, cynhaliwyd trafodaethau gyda nifer o sefydliadau cenedlaethol, aelodau etholedig a grwpiau proffesiynol a chynhaliwyd 16 o gyfweiliadau manwl gyda gwahanol randdeiliaid.

Dyma'r prif faterion a godwyd:

- Y broblem 'gormod o bartneriaethau' a 'gormod o gyfarfodydd', yn enwedig gan y sefydliadau hynny sy'n mynd i nifer o gyfarfodydd partneriaethau mewn rhanbarth penodol.
- Er gwaethaf cwmpas eang y cais am dystiolaeth, roedd nifer o ymatebion yn canolbwyntio'n benodol ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau). Er enghraifft, mae'n ymddangos bod gwahanol safbwyntiau o ran gwahaniaethu a gorgyffwrdd rhwng buddiannau'r byrddau hyn.
- Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y gallai'r BGCau fod yn fwy effeithiol petai ganddynt eu harian eu hunain fel sydd gan rai partneriaethau eraill. Yn eu barn nhw, nid yw'r cysyniad o gyllidebau cyfun yn digwydd yn ymarferol ar y cyfan. Mae llywodraeth leol yn ystyried bod ariannu polisïau ymysg adrannau penodol y Llywodraeth yn hybu gormod o bartneriaethau ac yn symud atebolrwydd o gymunedau lleol i Lywodraeth Cymru.
- Mae llawer o'r partneriaethau presennol yn bodoli naill ai drwy ddeddfwriaeth neu i reoli rhaglen waith a ariennir gan grantiau ar batrwm rhanbarthol gorfodol. Mae natur y rhain fel arfer yn arwain at bartneriaethau ar wahân, digyswllt, sy'n gallu arwain at fiwrocratiaeth ychwanegol drwy drefniadau ysgrifenyddiaeth ar wahân.
- O ran gwella'r sefyllfa bartneriaeth yn gyffredinol, cafwyd nifer o awgrymiadau, ond dim consensws.

- Mae'n amlwg bod yr atebion posibl, e.e. o ran cyfuno cyllid a phenderfynu ar batrymau, o fewn cwmpas y partneriaethau presennol. Ar sail y cyflwyniadau hyd yma nid oes llawer o awydd am newid strwythurol sy'n cael ei orfodi'n genedlaethol drwy ddeddfwriaeth.

Un peth sy'n glir yw **nad oes cais cyson i Lywodraeth Cymru uno neu ddiddymu partneriaethau**. Nid oedd neb yn cynnig nad oedd unrhyw un o'r partneriaethau hyn yn bwysig, ond roedd yr ymatebion yn canolbwyntio ar yr adnoddau oedd eu hangen i'w cynnal neu eu heffeithiolrwydd. Mae twf partneriaethau yn ystod y ddau ddegawd diwethaf ynghyd ag adnoddau prin y gwasanaethau cyhoeddus yn fwy prin nag erioed wedi golygu bod gwasanaethu'r partneriaethau hyn yn dda a sicrhau'r effaith orau bosibl wedi bod yn anodd. Y cyfyng-gyngor felly yw bodloni'r angen am y partneriaethau hyn, a chael budd ohonynt, yn erbyn y pwysau o wneud mwy gyda llai. Yn anochel efallai, nid oedd ateb cyson i'r cyfyng-gyngor hwn.

Efallai mai'r peth mwyaf dadlennol oedd y **canfyddiad cyson fod diwylliant o gydweithio a gwaith colegaidd a ddatblygir yn lleol yn cael ei ystyried yn bwysicach ac yn fwy grymus nag ad-drefnu ffiniau daearyddol**. Y farn gyffredinol yw bod cydweithio'n digwydd i raddau ond bod y broses yn cael ei chyfyngu drwy ddiwallu anghenion y sefydliad arweiniol neu'r sefydliad cynradd canfyddedig yn gyntaf. Weithiau codwyd mater sofraniaeth, yn enwedig o ran penderfyniadau ynghylch cyllido neu atebolrwydd a nodwyd bod partneriaethau yn aneglur o ran pwy sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau. Nid yw mynnu bod pobl yn gweithio mewn partneriaeth o reidrwydd yn arwain at gydweithio effeithiol, ond mae'n fan cychwyn da. Er gwaethaf degawdau o weithio mewn partneriaeth, mae angen o hyd i ddatblygu'r diwylliant colegaidd mewn sefydliadau, gan ddechrau gyda'r arweinwyr, ar draws gwasanaethau'r sector cyhoeddus, preifat a thrydydd sector.

Roedd yn amlwg bod **rhai atebion eisoes wedi'u ceisio mewn gwahanol rannau o Gymru i symleiddio'r sefyllfa bartneriaeth**, gan fanteisio ar yr hyblygrwydd yng ngofynion y partneriaethau hyn a – fel arfer – y cysylltiadau cynhyrchiol sy'n bodoli eisoes. Ac ystyried yr amrywiaeth o safbwyntiau ar yr atebion gorau, y cyfleoedd i ddefnyddio'r hyblygrwydd hwnnw a'r gwrthwynebiad cyffredinol i ailstrwythuro yn genedlaethol, mae'r adolygiad hwn wedi ceisio sicrhau bod ei argymhellion yn canolbwyntio ar elfennau pragmatig h.y. yr hyn y gellir ei wneud yn hytrach na'r hyn y gellid ei wneud mewn sefyllfa fwy perffaith.

Dylid ystyried yr adroddiad hwn fel un sy'n cymryd camau rhesymol, yn seiliedig ar dystiolaeth lwyddiannus o 'hunanwella', i weithio gyda'r arweinwyr yn y system i wella effeithiolrwydd ac amlygrwydd gweithio mewn partneriaeth ac i ddatblygu diwylliant gweithio colegaidd mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Cefndir

Mae cymhlethdod y sefyllfa bartneriaeth strategol yng Nghymru yn fater sy'n cael ei godi'n aml ac mae wedi cael ei amlygu'n gyson mewn adolygiadau annibynnol o wasanaethau cyhoeddus Cymru dros sawl degawd.

Nododd *Ar Draws Ffiniau: Gwasanaethau Lleol sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd* (Beecham et al, 2006) mai dwy elfen o lwyddiant hanfodol i wasanaethau cyhoeddus mwy effeithiol oedd ymgysylltu â phartneriaethau a dinasyddion. Nododd hefyd, er na fyddai newid strwythurau gwasanaethau cyhoeddus yn ddo'i hun yn sicrhau'r newidiadau mewn diwylliannau sydd eu hangen, ni ddylai strwythurau newid i fynd i'r afael â chyfyngiadau o ran capasiti a rhannu arbenigedd ar draws meysydd a sectorau. Nododd fod partneriaeth yn anodd a bod angen buddsoddi amser, adnoddau ac arweinyddiaeth, ond bod ganddi rôl allweddol i'w chwarae o ran sicrhau gwelliannau sylweddol mewn gwasanaethau. Er mwyn cyflawni hyn, roedd angen sicrhau bod holl bensaernïaeth gwasanaethau cyhoeddus, a diwylliant, sgiliau ac ymddygiad y rhai sy'n gweithio ynddynt, yn fwy addas i gyflawni ar y cyd.

Cyflwynodd *Lleol, Rhanbarthol, Cenedlaethol: Pa wasanaethau sydd orau i'w darparu ym mhle?* (Simpson et al, 2011) 21 o argymhellion ar y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau llywodraeth leol, gan ganolbwyntio'n benodol ar gydweithio rhwng cynghorau. Arweiniodd yr adolygiad hwn at lofnodi'r Compact ar gyfer Newid rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol Cymru ym mis Rhagfyr 2011. Bwriad hyn oedd darparu trywydd ar gyfer ffyrdd newydd o drefnu gwasanaethau cyhoeddus gyda'r nod o ffurfioli dull o weithio mewn partneriaeth ar draws ystod o wasanaethau cyngor, a safoni prosesau cydweithredu er mwyn gwella'r ddarpariaeth a'r canlyniadau.

Daeth y *Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus* (Williams et al, 2014) i'r casgliad, er y gall cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth oresgyn rhai o'r problemau hyn, bod y ffordd y maent wedi cael eu rhoi ar waith wedi'u gwneud yn fwy cymhleth yn aml. Y teimlad oedd bod angen i drefniadau llywodraethu partneriaethau fod yn gliriach ac yn gryfach, gyda chyfres fwy manwl o flaenoriaethau, cynlluniau a chanlyniadau. Daethpwyd i'r casgliad bod yn rhaid symleiddio strwythurau partneriaethau lleol yn radical a'u gwneud yn fwy effeithiol. Eu casgliad oedd y dylai'r byrddau gwasanaethau lleol ar y pryd gymryd cyfrifoldeb am gynnal un gofrestr o bartneriaethau lleol a strwythurau partneriaethau lleol.

Ers yr adolygiadau hynny, mae partneriaethau newydd wedi'u sefydlu ac nid yw'n glir i ba raddau y cymerwyd camau i fynd i'r afael â chamau o'r adroddiadau blaenorol ar gymhlethdod, a phwysigrwydd, gweithio mewn partneriaeth. O ganlyniad, mae llawer o bartneriaid gwasanaethau cyhoeddus a thrydydd sector yn ymwneud â nifer o bartneriaethau sy'n cwmpasu amrywiaeth o faterion, blaenoriaethau neu themâu.

Adolygiadau eraill o bartneriaethau strategol Cymru

Roedd yr adolygiad hwn yn ceisio sicrhau na fyddai unrhyw ddyblygu ar adolygiadau eraill o'r cynigion ar gyfer partneriaethau presennol neu newydd, neu fod newidiadau i'r partneriaethau presennol sy'n cael eu cynllunio yn cael ei ystyried yn ystod yr

adolygiad hwn. Roedd ymchwil ddesg yn nodi bod y gwaith canlynol naill ai ar y gweill neu wedi'i gwblhau'n ddiweddar:

Gweithgor ar Lywodraeth Leol

Sefydlwyd Gweithgor ar Lywodraeth Leol yn 2018 fel rhan o gytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol i lunio a diffinio dyfodol llywodraeth leol yng Nghymru gyda'i gilydd. Ei dasg graidd oedd datblygu agenda gyffredin ar gyfer diwygio sy'n sicrhau cynaliadwyedd o ran darparu gwasanaethau lleol drwy strwythurau a phrosesau priodol – boed hynny drwy gydweithredu, gwasanaethau a rennir neu drefniadau uno gwirfoddol

Roedd yn amlwg o'r sgysiau yn y Gweithgor, a'r gwaith mapio a wnaethpwyd gan lywodraeth leol, bod cryn dipyn o waith partneriaeth cydweithredol eisoes yn cael ei wneud ar sail wirfoddol a statudol ledled Cymru.

Fodd bynnag, roedd y Gweithgor yn cydnabod bod y sefyllfa hon yn gymhleth a'i bod yn bosibl bod y cymhlethdod hwn yn cyfyngu ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y trefniadau hyn.

Roedd y Gweithgor ar Lywodraeth Leol yn ystyried gwaith sy'n dod i'r amlwg ar fapio partneriaethau ac roedd awydd i weld rhagor o waith yn cael ei wneud i adolygu'r sefyllfa bartneriaeth – a arweiniodd at gomisiynu'r Adolygiad o Bartneriaethau Strategol a nodir yn yr adroddiad hwn.

Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

Ym mis Hydref 2019, cyhoeddodd Pwyllgor Economaidd, Seilwaith a Sgiliau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ymchwiliad i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, gan ymchwilio i ba mor dda y mae'r partneriaethau yn nodi ac yn adlewyrchu'r galw am sgiliau gan gyflogwyr. Lluniwyd yr argymhellion i roi cenhadaeth glir a strategol i'r partneriaethau gan ganolbwyntio'n benodol ar nodi a chael gwared ar rwystrau sgiliau isel. [[Adroddiad](#) ac [ymateb Llywodraeth Cymru](#)]

Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynllunio gwaith i gynnal adolygiad ar brofiad y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a llunio argymhellion ar gyfer Gweinidogion ar ddyfodol gweithio integredig yng Nghymru.

Ym mis Chwefror 2020, cynhaliwyd digwyddiad dysgu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd yn sgil datblygu partneriaethau yn eu hardal.

Datblygwyd Adnodd Hunanasesu gyda rhanddeiliaid i helpu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ystyried a deall eu cynnydd, nodi cryfderau a llwyddiannau'r Bartneriaeth, gan dynnu sylw at gyfleoedd i wella hefyd. Roedd cynllun peilot o'r adnodd i fod i ddechrau gyda dau Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ym mis Mawrth 2020 ond mae bellach wedi'i ohirio oherwydd Covid-19.

Mae swyddfa Comisiynydd Plant Cymru wedi cynnal prosiect eleni a oedd yn dadansoddi effeithiolrwydd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Aeth i ymweld â phob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gan herio pob un o'r byrddau i wneud yn siŵr

eu bod yn blaenoriaethu anghenion plant a phobl ifanc a chanddynt anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch (sy'n cynnwys salwch meddwl) a sicrhau eu bod yn cael y gofal gorau posibl.

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Ym mis Hydref 2019, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru ei hadolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Daeth yr adolygiad i'r casgliad nad yw BGCau yn debygol o wireddu eu potensial oni bai eu bod yn cael y rhyddid i weithio'n fwy hyblyg a meddwl a gweithredu'n wahanol. Nododd hefyd fod BGCau, yn gyffredinol, yn *ymgysylltu â dinasyddion, ond nad ydynt yn eu cynnwys* yn eu gwaith ac er bod cyrff cyhoeddus yn gwerthfawrogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, nad oes cytundeb ynghylch sut y dylai eu rôl esblygu.

Argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru alluogi BGCau i ddatblygu modelau gweithio hyblyg gan gynnwys uno, lleihau ac integreiddio eu gwaith gyda fforymau eraill fel Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Argymhellodd hefyd fod Llywodraeth Cymru yn rhoi hyblygrwydd i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus dderbyn, rheoli a gwario arian grant (ar yr amod bod BGCau yn sicrhau bod ganddynt fesurau diogelu digonol a systemau craffu priodol ar waith).

Yn olaf, cyflwynodd yr adroddiad argymhelliad y dylai ystyried canfyddiadau'r adolygiad hwn, ac ymchwilio iddynt.

Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru

Mae ymgynghoriad cyhoeddus byw sy'n nodi meddylfryd Llywodraeth Cymru ar ddyfodol buddsoddi rhanbarthol y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, a luniwyd drwy weithio'n agos gyda'n partneriaid. Ynddo mae cyfres o gynigion sy'n dweud sut bydd cyllid a ddaw gan Lywodraeth y DU, yn lle arian Ewrop, yn cael ei fuddsoddi mewn fframwaith cenedlaethol a fydd yn targedu ac yn rheoli buddsoddiadau yn rhanbarthol. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 22 Mai 2020.

Trefniadau sy'n dod i'r amlwg ar draws y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

BGCau a BPRhau sy'n ymdrin â phatrymau rhanbarthol neu leol gwahanol ond sy'n gorgyffwrdd, a blaenoriaethau gwahanol ond cysylltiedig, yn enwedig ym meysydd iechyd, gofal a lles. Mae partneriaid lleol a rhanbarthol ledled Cymru wedi bod yn gweithio'n galed i ddatblygu trefniadau gweithredu amrywiol ar gyfer y Byrddau, sy'n eu helpu i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hamser a'u harbenigedd yn y modd mwyaf effeithiol i wella canlyniadau i bobl yng Nghymru.

Ym mis Mawrth 2019, bu'r Athro Keith Moultrie yn ystyried y berthynas rhwng yr BPRhau a'r BGCau mewn gweithdy o arweinwyr o'r BPRhau a'r BGCau gyda nawdd gan Lywodraeth Cymru.

Adolygiad rhanbarthol o weithio mewn partneriaeth - Gwent

Mae grŵp o arweinwyr a phrif swyddogion gwasanaethau cyhoeddus Gwent (G10) yn ceisio arwain ar waith "cynllunio strategol a thymor hir" tra mae BGCau yn cyflawni'r manylion lleol. Mae Grŵp Asesu Lles Strategol Gwent (GSWAG) yn dwyn ynghyd weithwyr proffesiynol gwasanaeth cyhoeddus o bum awdurdod lleol, yr heddlu, gweithwyr iechyd a phartneriaid eraill megis Cyfoeth Naturiol Cymru a

Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel canolfan gefnogi ar gyfer dysgu a rhwydweithio rhwng cysylltiadau. Ffurfiwyd y grŵp yn y lle cyntaf i weithio gyda'i gilydd i lunio asesiadau llesiant gan ddefnyddio dull unedig ac ers hynny mae wedi esblygu i fod yn fforwm cymorth rhannu rhwng cysylltiadau gwerthfawr ar gyfer materion lles rhanbarthol.

Adolygiad rhanbarthol o weithio mewn partneriaeth – Gogledd Cymru

Yn 2019, cafodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Partneriaeth Gogledd Cymru y dasg o edrych ar strwythurau partneriaeth rhanbarthol presennol gogledd Cymru o safbwynt diogelu a diogelwch cymunedol. O ganlyniad i'w ganfyddiadau, bydd wyth partneriaeth yn cael eu lleihau i bump, gan barhau gyda'r bwrdd CONTEST am y tro.

Mae partneriaethau lleol a rhanbarthol eraill wedi cynnal adolygiadau tebyg. Er bod adolygiadau cenedlaethol yn tueddu i nodi themâu, rhwystrau neu gyfleoedd cyffredin sy'n ymwneud fel arfer â'r fframwaith ariannol, polisi neu statudol cenedlaethol, gallai adolygiadau a gaiff eu llywio a'u trafod yn lleol fod yn gyfle gwell i newid perfformiad neu ymddygiad partneriaethau a'u haelod-sefydliadau. Mae'n bwysig felly bod Llywodraeth Cymru yn rhoi digon o rym a hyblygrwydd lleol

METHODOLEG

Ym mis Ionawr 2019, nododd y Gweithgor ar Lywodraeth Leol, a gadeiriwyd gan Derek Vaughan, fod nifer y partneriaethau strategol yng Nghymru – sy'n aml yn cynnwys yr un cyrff yn ôl pob golwg – yn creu teimlad bod angen ymestyn yr adnoddau presennol i fynd ymhellach fyth. Roedd hyn yn codi cwestiynau ynghylch effeithiolrwydd y sefyllfa bartneriaeth ac a fyddai modd gwneud rhywbeth, ar y cyd, i symleiddio hyn.

Yn dilyn hynny, cytunodd Llywodraeth Cymru a CLILC i gynnal adolygiad o bartneriaethau strategol, gan geisio ymgorffori arsylwadau'r adolygiadau ehangach. Nod yr adolygiad oedd ystyried y sefyllfa bartneriaeth eang a nodi'r meysydd allweddol ar y cyd lle teimlid bod cymhlethdod neu ddyblygu diangen, gan weithio gyda phartneriaid i nodi cyfleoedd i symleiddio a rhesymoli mewn modd penodol a phragmatig. Bwriad yr adolygiad oedd nodi'r canlynol:

- Camau y gallai'r partneriaethau perthnasol eu cymryd ar unwaith i resymoli partneriaethau/gwella aliniad;
- Camau y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd ar unwaith i resymoli partneriaethau/gwella aliniad;
- Gweithredu a fyddai'n gofyn am newid deddfwriaethol drwy'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau.

Cam un – cais am dystiolaeth

Roedd cam cyntaf yr adolygiad yn gwneud cais am dystiolaeth ysgrifenedig (**Atodiad A**) gan amrywiaeth eang o arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus a chadeiryddion partneriaethau ynghyd â dadansoddiad desg o adolygiadau partneriaeth presennol. Digwyddodd hyn yn ystod Haf a Hydref 2019 a derbyniwyd 33 o ymatebion ymysg:

- Prif Gyngorau
- Bwrdd Iechyd Lleol
- Cyrff eraill yn y sector cyhoeddus
- Gwasanaethau arolygu/archwilio
- Cynrychiolwyr y trydydd sector

Gellir gweld rhestr lawn o'r ymatebwyr yn **Atodiad B**. Cyfarfu'r tîm adolygu ar wahân hefyd gydag aelodau Confederasiwn GIG Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, Penaethiaid Polisi Awdurdodau Lleol a Thai Cymunedol Cymru i ofyn am eu barn.

Ystyriwyd adroddiad interim yng Nghyngor Partneriaeth Cymru ar 2 Hydref 2019¹. Dyma'r prif faterion a godwyd:

- Problem 'gormod o bartneriaethau' a 'gormod o gyfarfodydd', yn enwedig gan y sefydliadau hynny sy'n mynd i gyfarfodydd nifer o bartneriaethau mewn rhanbarth penodol e.e. Gwasanaethau Tân ac Achub, Gwasanaethau'r Heddlu a Chyfoeth Naturiol Cymru. Gall hyn arwain at sgysiau ailadroddus ar

¹ Cyngor Partneriaeth Cymru – [Papurau](#) – 2 Hydref 2019

draws nifer o gyfarfodydd. Mae sefydliadau'n poeni nad oes ganddynt ddigon o gapasiti i gefnogi'r system bresennol o drefniadau'n llwyr.

- Er gwaethaf cwmpas eang y cais am dystiolaeth, roedd nifer o'r ymatebion yn canolbwyntio'n benodol ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau). Er enghraifft, mae'n ymddangos bod gwahanol safbwyntiau o ran gwahaniaethu a gorgyffwrdd rhwng buddiannau'r byrddau hyn.
- Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y gallai BGCau fod yn fwy effeithiol petaent yn cael eu harian eu hunain fel rhai partneriaethau eraill. Roeddent o'r farn nad yw'r cysyniad o gyllidebau cyfun yn digwydd yn ymarferol ar y cyfan. Mae llywodraeth leol yn ystyried bod ariannu polisïau ymysg adrannau penodol y Llywodraeth yn hybu gormod o bartneriaethau ac yn symud atebolrwydd o gymunedau lleol i Lywodraeth Cymru.
- Mae llawer o'r partneriaethau presennol yn bodoli naill ai drwy ddeddfwriaeth neu i reoli rhaglen waith a ariennir gan grant. Mae natur arwahanol y rhain fel arfer yn arwain at bartneriaethau arwahanol a digyswllt, a all arwain at fiwrocratiaeth ychwanegol drwy drefniadau ysgrifenyddiaeth ar wahân.
- O ran gwella'r sefyllfa bartneriaeth yn gyffredinol, cafwyd nifer o awgrymiadau, ond dim consensws.
- Mae'n amlwg bod yr atebion posibl, e.e. o ran cyfuno cyllid a phenderfynu ar batrymau, o fewn cwmpas y partneriaethau presennol. Ar sail y cyflwyniadau hyd yma nid oes llawer o awydd am newid strwythurol sy'n cael ei orfodi'n genedlaethol drwy ddeddfwriaeth.

Y prif ganfyddiadau o'r ymarfer hwn oedd nad oedd barn gyson ynglŷn â sut i greu sefyllfa bartneriaeth symlach a dim cefnogaeth i ddatrysiad deddfwriaethol.

Yn y cyfarfod hwnnw, cytunodd Cyngor Partneriaeth Cymru y byddai'r tîm adolygu yn profi damcaniaethau pellach ar gyfer rhesymoli partneriaethau er mwyn darparu argymhellion ymarferol ar gyfer cyfarfod y Cyngor Partneriaeth yn y dyfodol.

Cam dau – profi damcaniaethau sy'n dod i'r amlwg

Addasodd y tîm adolygu'r fethodoleg 'adolygiad â blaenoriaeth'² i ddatblygu'r dull gwaith maes.

Yn gyntaf, defnyddiwyd gwybodaeth o'r alwad gyntaf am dystiolaeth i ddatblygu diffiniad o bartneriaethau strategol ynghyd â rhestr o bartneriaethau strategol mewn cwmpas.

Yn ail, pennwyd diben a sail y partneriaethau hyn er mwyn rhoi eglurder ynghylch a sefydlwyd y partneriaethau drwy ddeddfwriaeth, cyllid neu ddulliau eraill.

² Deliverology 101, Barber et al (2011)

Yn drydydd, o'r dystiolaeth hon, datblygwyd nifer o ragdybiaethau cychwynnol sy'n cwmpasu'r problemau hysbys a'r atebion mwyaf tebygol. Roedd y tybiaethau hyn yn sail i gwestiynau mewn cyfweiliadau lled-strwythuredig a gyflwynwyd i amrywiaeth o rhanddeiliaid perthnasol drwy gyfweiliadau gwaith maes. Cafodd yr ymgeiswyr am gyfweiliad eu dewis i ddarparu:

- Digon o sylw i sectorau wedi'u cynnwys mewn prosesau gweithio mewn partneriaeth
- Cydbwysedd sectorau a safbwyntiau er mwyn dwyn rhanddeiliaid i gyfrif am ragfarnau posibl
- Sicrhau bod meysydd allweddol y Cyngor Partneriaeth yn cyfrannu
- Tystiolaeth ddigonol i driongli canfyddiadau a rhoi sicrwydd o argymhellion
- Ar gael o fewn yr amserlen gyfweild.

Cafodd unigolion eu cyfweild gan dimau o ddau (o wahanol wasanaethau cyhoeddus) a hynny wyneb yn wyneb, lle bo'n bosibl. Rhoddwyd sicrwydd i'r rheini a gafodd eu cyfweild na fyddai modd adnabod sylwadau unigol yn yr adroddiad terfynol.

Cynhaliwyd trafodaethau pellach gyda fforymau rhanddeiliaid, gan gynnwys Is-grŵp Llywodraeth Leol y Cyngor Partneriaeth ym mis Mawrth 2020.

Dadansoddwyd ymatebion o'r gwaith maes a'u cyfuno dan benawdau bras y cwestiynau h.y. y cyfleoedd i alinio partneriaethau presennol, y rhwystrau (gwirioneddol neu ganfyddedig) o ran alinio partneriaethau a sut y gallem fesur llwyddiant newidiadau i'r sefyllfa bartneriaeth.

DIFFINIAD

Roedd y cyflwyniadau ysgrifenedig cychwynol yn egluro beth oedd y rhanddeiliaid yn ei ystyried fel diffiniad a chwmpas y partneriaethau strategol i'w cynnwys yn yr adolygiad hwn. Mabwysiadwyd y diffiniad canlynol o bartneriaethau strategol ar gyfer yr adolygiad:

Partneriaeth o lunwyr penderfyniadau ym mhob rhan o wasanaethau cyhoeddus (gan gynnwys partneriaid y trydydd sector a'r sector preifat) sydd â'r dasg o gysylltu a chyflawni polisi neu strategaeth o bwysigrwydd strategol uchel.

Mae'r dull partneriaeth yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru a/neu'r DU drwy ddeddfwriaeth, polisiau neu brosesau gweinyddu grantiau.

Roedd y gwaith maes yn dangos yn gyson bod rhanddeiliaid o'r farn bod dau fath o bartneriaeth strategol: y cyntaf yn fyrddau **aml-bwrpas, lefel uchel** gyda nodau ac amcanion tymor hir, a'r ail yn **fyrddau polisi un pwrpas** yn canolbwyntio ar faterion o bwys strategol, yr oedd dull partneriaeth yn briodol ar eu cyfer. Er bod partneriaethau 'un pwrpas' fel arfer yn canolbwyntio ar ystod o faterion cymhleth, fe'u disgrifiwyd fel rhai 'un pwrpas' gan eu bod yn tueddu i fod â pholisi, rhaglen neu ffocws thematig penodol. Yn ôl y cyfweiliadau roedd gan y byrddau amlbwrpas presennol ddibenion cymharol glir h.y. gwasanaethau lles a seiliedig ar le (Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus) ac iechyd a gofal cymdeithasol (Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol).

Nodwyd hefyd bod partneriaeth strategol naturiol ar gyfer materion economaidd (Bargeinion Dinesig, Byrddau Twf neu Uchelgais), er mai anaml y codwyd materion yn ymwneud â'r partneriaethau hyn mewn trafodaethau neu gyflwyniadau.

O'r gwaith maes, mae'r partneriaethau o ran cwmpas wedi'u rhannu i'r categorïau canlynol:

Partneriaethau Strategol (aml-bwrpas)

- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- Bargeinion Dinesig / Bwrdd Twf/Uchelgais

Partneriaethau Polisi Strategol (un pwrpas)

- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol
- Partneriaeth Diogelu Oedolion
- Partneriaeth Diogelu Plant
- Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
- Grŵp Cydweithredol ar gyfer Cymorth Tai Rhanbarthol
- Bwrdd Cynllunio Ardal (camddefnyddio sylweddau)
- Partneriaethau VAWDA SV
- Partneriaethau Iechyd Meddwl

Nid oedd cyfle i gydweithio ag un sector na gwasanaethau ar y cyd ar gyfer yr adolygiad hwn e.e. consortia gwella ysgolion neu'r Cydbwyllgorau Corfforaethol Arfaethedig.

Mae'r partneriaethau wedi'u sefydlu ar amrywiaeth o ganolfannau ac nid ydynt bob amser yn dibynnu ar ddeddfwriaeth. Mae **Atodiad C** yn amlinellu'r dulliau a sefydlwyd ar gyfer llunio pob partneriaeth, eu diben, eu haelodaeth a'u patrwm yn yr ardal. Mae'n dra hysbys bod y sefyllfa bartneriaeth yn gymhleth, gydag amrywiaeth o batrymau ardaloedd yn cael eu cynrychioli h.y.:

- Prif Gyngorau
- Byrddau Iechyd Lleol
- Rhanbarthau economaidd
- Gwasanaethau Tân ac Achub
- Heddluoedd

ALINIO PARTNERIAETHAU STRATEGOL

Nid oedd cylch gorchwyl i'r adolygiad hwn i ymchwilio i gwmpas, trefniadau llywodraethu, aelodaeth na pherfformiad partneriaeth unigol. Diben yr adolygiad yw dod o hyd i'r ffordd orau i'r partneriaethau hyn gyd-fynd â'i gilydd dan y trefniadau presennol.

I grynhoi, roedd llawer yn teimlo bod gwell aliniad a chysylltiadau rhwng partneriaethau yn synhwyrol, ond nid oes consensws o hyd ar beth fyddai strwythur delfrydol. Roedd yn amlwg nad oedd ailstrwythuro o'r brig i lawr yn ddymunol, yn bennaf oherwydd y gallai achosi niwed i atebion llwyddiannus sydd eisoes yn digwydd mewn rhai meysydd.

Nododd nifer o gyfweiliadau fod y partneriaethau strategol hyn wedi'u sefydlu dros gyfnod o 20 mlynedd gan wahanol Weinidogion a gweinyddiaethau, ac roeddent o'r farn nad oedd hynny wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i gydnabod partneriaethau sy'n bodoli eisoes. Yn dilyn hynny, nododd nifer sylweddol o gyfweiliadau fod y sefyllfa bartneriaeth bresennol yn ynysig a bod diffyg cysylltiad neu gydbertynas rhwng y partneriaethau yn gyffredinol. Er bod rhywfaint o waith wedi'i wneud i alinio partneriaethau mewn rhai meysydd, nid oedd hyn yn wir ar y cyfan.

Hefyd, nododd rhanddeiliaid fod patrymau gwahanol ardaloedd ar gyfer gwahanol bortffolios yn cymhlethu pethau. Mae cymhlethdod wedi bod yn fater cyson sydd wedi'i nodi mewn sawl adolygiad blaenorol, gan nad yw heddluoedd, gwasanaethau tân ac achub, byrddau iechyd a phrif gynghorau yn rhannu'r un patrymau ardaloedd. Fodd bynnag, dywedodd y rheini a gafodd eu cyfweld yn gyffredinol fod alinio polisïau yn bwysicach nag alinio ardaloedd h.y. bod cael cysylltiadau da rhwng partneriaethau o fuddiannau sy'n gorgyffwrdd (e.e. yn ymwneud â diogelwch cymunedol) yn bwysicach na chysoni pob partneriaeth yn ôl patrwm ardal. Mae'r thema hon yn ymwneud â pherchnogaeth. Po fwyaf yw'r rôl y mae partneriaid yn ei chwarae wrth sefydlu a rheoli'r bartneriaeth, y mwyaf yw'r "ymrwymiad" i'r bartneriaeth. Mae'r Fargen Ddinesig a'r Partneriaethau Twf yn brawf o'r egwyddor hon.

Codwyd nifer o ddewisiadau ar gyfer alinio partneriaethau yn ystod yr adolygiad. Roedd y farn yn amrywio yn ôl sector ac yn ôl rhanbarth, a oedd yn awgrymu bod sawl dewis yn hytrach nag un gorau posibl, ac y gall yr ateb mwyaf pragmatig ddibynnu ar drefniadau lleol a chysylltiadau sy'n bodoli eisoes. Ni roddwyd unrhyw ddewis fwy nag unwaith. Roedd y posibiladau a godwyd gan y rheini a gafodd eu cyfweld ar gyfer partneriaethau wedi'u halinio'n well yn cynnwys:

- Gallai Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, VAWDASV a Diogelu gael eu grwpio gyda'i gilydd neu byddai modd cysylltu eu gwaith
- Gallai Partneriaethau Diogelwch Cymunedol adrodd i'r BGCau (a gwneud hynny mewn o leiaf rhai ardaloedd)
- Partneriaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) – er y dylai'r partneriaethau hyn barhau i weithio'n rhanbarthol ar batrymau BGC, awgrymodd gwahanol ymatebwyr y gallent gyflwyno adroddiad drwy BGCau neu BPRhau.
- Roedd enghraifft o fyrddau diogelu yn cael eu rheoli drwy'r BPRh (er nad oedd gan y BPRh drefniadau craffu drwy lywodraeth leol).

- Cafwyd sylwadau ynghylch colli cyfleoedd i alinio drwy beidio â chael aelodau'r heddlu ar y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, er enghraifft, i gefnogi'r broses o gydgyssylltu i gefnogi iechyd meddwl mewn ardal.
- Cafwyd sylwadau am gyfleoedd a gollwyd o ran peidio â chydgyssylltu Byrddau Cynllunio Ardal (camddefnyddio sylweddau) a phartneriaethau VAWDASV gan fod y rhain yn aml yn effeithio ar yr un grwpiau o bobl.

Mynegwyd pryderon gan rai yn y sectorau diogelwch cymunedol a phlisma eu bod yn ceisio ymgysylltu'n agosach mewn partneriaethau sy'n cynnwys partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol. Nodwyd bod hyn yn effeithio ar fabwysiadu model mwy "cymdeithasol" o blisma yn seiliedig ar ddysgu o effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac ailddiffinio trosedd i gynnwys camfanteisio ar bobl sy'n agored i niwed a meithrin perthynas amhriodol â nhw.

Nodwyd nad oes yn rhaid i alinio partneriaethau fod yn ail-aliniad parhaol, ond gallai fod yn seiliedig ar flaenoriaethau cyfredol. Felly, mae rhywfaint o hyblygrwydd lleol yn synhwyrol. Er enghraifft, nododd un cyfwelai fod gan blisma bedair her strategol bwysig ar hyn o bryd sy'n sbarduno'r profiad rheng flaen y mae'n rhaid i'r heddlu ymateb iddo h.y.:

- Iechyd meddwl
- Camddefnyddio sylweddau
- Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod
- Trais a cham-drin domestig

Petai'r holl bartneriaethau strategol yn gallu alinio mewn ffordd lle gallai'r holl bartneriaethau perthnasol weithio gyda'i gilydd i fodloni'r sbardunau hyn, gallai hyn gael effaith sylweddol ar y rheng flaen. Mae tîm yr adolygiad yn cydnabod y gall y blaenoriaethau hyn newid mewn 5-10 o flynyddoedd a gallai'r dewis i ail-alinio eto fod yn gryfder. Gallai ateb parhaol, wedi'i ddeddfu, lesteirio ymateb o'r fath.

Dywedodd rhai rhanddeiliaid nad yw bob amser yn amlwg a yw'r byrddau hyn yn cysylltu ai peidio. Nid oes angen llinellau adrodd neu fyrddau wedi'u huno bob amser, ond petai'r partneriaethau'n gysylltiedig mewn rhyw ffordd, megis drwy aelodau cyffredin (pobl, nid sefydliadau), diweddariadau neu linellau adrodd ffurfiol, yna gallai'r partneriaethau a'r cyhoedd fod yn hyderus bod partneriaethau wedi cydgysylltu, nad ydynt yn dyblygu ymdrechion a'u bod yn gweithio tuag at nodau cyffredin.

Ceir enghreifftiau lle mae ardaloedd eisoes wedi cymryd y cam cyntaf i resymoli gwaith y partneriaethau hyn. Un enghraifft yw Bwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru. Adolygodd grŵp gorchwyl a gorffen strwythurau partneriaeth ranbarthol gogledd Cymru o safbwynt diogelu a diogelwch cymunedol, er mwyn sicrhau y gall partneriaethau reoli materion cymhleth a thrawsbynciol mewn ffordd effeithiol ar draws y rhanbarth. Teimlwyd y gallai arwyddion a symptomau materion penodol ddod i'r amlwg ymysg nifer o bartneriaethau, heb i un bartneriaeth gael golwg glir ar y darlun mwy, cydgysylltiedig. Penderfynodd y Bwrdd ddiwygio wyth partneriaeth yn bum partneriaeth fwy strategol, gyda'r bwriad yn wreiddiol dim ond i gael pedwar. Mae'r byrddau newydd yn cysylltu â'r byrddau Diogelu Oedolion a Phlant ac maent yn ymchwilio i'r posibilrwydd o uno Partneriaethau Diogelu Oedolion a Phlant Gogledd Cymru.

Yng Ngwent, mae'r grŵp arweinwyr G10 a grŵp gweithredol GSWAG yn darparu dull o gydgyssylltu'r gweithgareddau ar draws y BGCau etholaethol. Mae Cadeiryddion/Arweinwyr a Phrif Weithredwyr aelodau statudol y pump BGC yng Ngwent, ynghyd â'r Prif Gwnstabl a Chomisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent, yn ffurfio grŵp rhanbarthol o'r enw G10. Caiff G10 ei gefnogi gan swyddogion enwebedig o'u sefydliadau (GSWAG) sy'n gweithio i nodi a chyflawni amcanion llesiant cyffredin ar lefel ranbarthol a lleihau dyblygu. Mae'r ffordd hon o weithio hefyd yn defnyddio cyllid allanol sydd ar gael ar lefel ranbarthol yn unig.

Yn ogystal â'r partneriaethau uchod, cafwyd nifer o ymatebion yn sôn am y berthynas rhwng Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau). Nododd yr ymatebion fod y rhain yn ddau fwrdd strategol a oedd yn canolbwyntio ar lesiant (agweddau gwahanol, ond cydberthynol), weithiau gyda pherthynas weithredol aneglur, a oedd yn gwneud y sefyllfa yn fwy cymhleth i rai. Mae gan y ddau sail statudol a gofynion statudol i'w cyflawni, er y nodwyd bod gan BPRhau hefyd ddibenion gweithredu sylweddol – rheoli'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid gan Lywodraeth Cymru. Mae arian grant sylweddol wedi bod ar gael dros nifer o flynyddoedd ac mewn blynyddoedd i ddod bydd BPRhau yn cael eu hariannu i ddarparu Cymru Iachach a rhaglenni newid cysylltiedig. Nid oes gan y BGCau rôl weithredol gyfatebol.

Nododd y cyfweiliadau fod dibenion y byrddau hyn yn wahanol i raddau helaeth – er bod rhywfaint o orgyffwrdd o ran gofal a chymorth – a bod yr aelodau'n amrywio (yn ôl sector ac o ran statws). Roedd rhai o'r farn bod y BPRh wedi dod yn fwy gweithredol ei natur am ei fod yn gyfrifol am reoli'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid. Roedd rhai yn credu bod gan y BGC, mewn egwyddor, bersbectif mwy strategol gan ei fod yn edrych ar ystod eang o wasanaethau cyhoeddus ar draws ardal, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, roedd eraill yn adlewyrchu'r ffaith, yn ymarferol, fod gan y BPRhau gyllid sylweddol i'w reoli a'u bod yn cael eu hystyried yn gyfrwng mwy pwerus a chyflymach ar gyfer gweithredu. Roedd rhai yn dymuno i rywfaint o'r arian a wariwyd gan y BPRhau gael ei wario gan BGCau lle'r oedd y gweithgareddau yn fwy ataliol eu natur.

Awgrymodd nifer fach o gyfweiliadau y gallai 'bwrdd arweinwyr strategol' sy'n cynnwys yr arweinwyr uchaf o bob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus (gyda chynrychiolaeth o'r trydydd sector a'r sector preifat) oruchwylio'r holl bartneriaethau hyn – gan ysgogi partneriaethau gweithredol yn ôl y gofyn. Byddai hyn yn ymddangos yn addasiad o atebion gogledd Cymru a Gwent. Yna gallai'r llinellau adrodd fod yn gliriach. Fodd bynnag, dan y ddeddfwriaeth bresennol, ni ellir cyflawni hyn a byddai angen bodloni gofynion presennol y BGC a'r BPRh o hyd, gan ychwanegu haen ychwanegol o gyfarfodydd uwch arweinwyr. Nid yw'n glir a fyddai hyn yn cael ei gefnogi ar draws y gwasanaethau cyhoeddus. Byddai hyn yn ymrwymiad sylweddol, a allai greu haen bartneriaeth arall a byddai angen ei archwilio ymhellach. Gan y byddai'r cynigion yn debygol o effeithio ar ddeddfwriaeth, byddai angen papur gwyrdd neu wyn i ymgynghori'n ffurfiol ar newidiadau o'r fath. Nid oedd modd ei gyflawni drwy ddeddfwriaeth yn y tymor byr, ond gellid ei ddatblygu'n anffurfiol ar sail ranbarthol petai partneriaid yn cytuno.

Yn ystod gwanwyn 2019, cyflwynodd yr Athro Keith Moultrie (y Sefydliad Gofal Cyhoeddus) adroddiad ar weithdy a oedd yn ymwneud â threfniadau sy'n dod i'r amlwg ar draws Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd ei sylwadau o'r digwyddiad hwnnw yn cynnwys:

- Nid oes unrhyw ddymuniad i gael rhagor o ddeddfwriaethau na chanllawiau yn y maes hwn
- Bydd mwy o gydweithio rhwng timau Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gefnogi BPRhau a BGCau yn hanfodol, ac mae'r gweithgareddau y byddant am eu cyflawni gyda'i gilydd o bosibl yn y cyfnod nesaf yn cynnwys:
 - i. Sefyllfa ddiodyn prosesau cyfathrebu ar y cyd gan y timau i BPRhau a BGCau ynglŷn â materion sy'n berthnasol i'r naill neu'r llall;
 - ii. Cyfarfodydd cyswllt rheolaidd rhwng y timau i nodi datblygiadau a newidiadau gyda'r ddau Fwrdd;
 - iii. Rhagor o ddigwyddiadau achlysurol i ddwyn ynghyd bartneriaid o bob rhan o Gymru i rannu gwahanol ddulliau dysgu a gweithredu sy'n gweithio.

Yn dilyn y gweithdy hwnnw ac adroddiad yr Athro Moultrie, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog dros Dai a Llywodraeth Leol a'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol lythyr ar y cyd at Gadeiryddion y byrddau hyn (**Atodiad D**).

Mae ffeithlun wedi'i lunio ar y cyd sy'n amlinellu'r cyfrifoldebau a'r cysylltiadau rhwng y ddau fwrdd (**Atodiad E**). Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda'i gilydd i alinio'r prosesau ar gyfer asesu anghenion y boblogaeth a lles lleol – gyda gweithdy BGC a BPRh ar y cyd ar y thema hon wedi'i gynllunio. Bydd y camau nesaf yn cynnwys alinio cefnogaeth y bwrdd a chyfarfodydd rheolaidd rhwng holl Gadeiryddion y BGCau a'r BPRhau.

RHWYSTRAU I ALINIO A RHESYMOLI PARTNERIAETHAU

Ac ystyried yr amrywiaeth o ddewisiadau sydd ar gael i resymoli partneriaethau, a'r enghreifftiau lle'r oedd hyn wedi digwydd, mae'n bwysig ystyried pam nad oedd hyn yn fwy cyffredin.

Datgelodd y cyfweiliadau amryw o resymau pam nad yw partneriaethau wedi'u halinio eto'n lleol o bosibl. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd cyfuniad o'r rhain yn berthnasol. Ar lefel leol, awgrymodd yr adborth y gallai rhesymoli gael ei gyfyngu drwy'r canlynol:

- Diffyg ymwybyddiaeth o ddewisiadau
- Gwrthwynebu newid rhag ofn y bydd yn llai effeithiol
- Diffyg brwdfrydedd gan bartneriaid perthnasol – yn enwedig wrth gyfrannu at gyllid cyfun
- Cymhlethdodau yn sgil patrymau partneriaethau ardaloedd sy'n gorgyffwrdd
- Cymhlethdodau yn sgil gwahanol flaenoriaethau'r byrddau o ran camau
- Pryder y gallai pwrpas partneriaethau polisi mwy penodol gael eu bwrw o'r neilltu mewn unrhyw bartneriaeth sydd wedi uno. Roedd amharodrwydd i ganiatáu i'r hyn y gellid ei ystyried yn ymgais i gipio neu feddiannu grym
- Pryder y gallai rhai partneriaid (e.e. y trydydd sector, dinasyddion gael eu gwthio o'r neilltu mewn bwrdd mwy) lle mae 'pobl fwy pwerus' wrth y llyw
- Gallai maint y partneriaethau/bwrdd newydd wahardd pobl rhag gweithio'n effeithiol petai bob aelod yn cael ei drosglwyddo
- Gall diben byrddau newydd fod yn ddryslyd ac yn gymhleth, gyda chymysgedd o ddibenion strategol a gweithredol
- Cydnabod y gallai'r cynnig wthio cyfarfodydd i is-grwpiau, a allai greu mwy o gyfarfodydd yn gyffredinol.

Fodd bynnag, ar draws y cyfweiliadau, mae'r **rhwystyr canfyddedig allweddol i weithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth yn un diwylliannol**. Hynny yw, bod gweithio mewn partneriaethau yn llai effeithiol pan fydd partneriaid yn cadw eu diddordebau penodol ac yn ei chael hi'n anodd cyfuno cyllidebau ac adnoddau i gefnogi'r bartneriaeth. Yn groes i hynny, yr enghreifftiau mwyaf llwyddiannus o weithio ar draws partneriaethau i symleiddio'r baich gweinyddol a chyflawni yw pan fydd sefydliadau'n gallu dangos arweiniad wrth roi budd y gwasanaeth cyhoeddus ehangach cyn eu budd sefydliadol eu hunain – er mewn gwirionedd, gellid disgwyl y dylai'r rhain fod yr un fath yn fras.

Lle y darperir arian ychwanegol i bartneriaeth i gefnogi'r broses ddarparu, gall hyn ei gwneud yn haws gweithio ar nodau cyfunol (e.e. yn y BPR). Fodd bynnag, mae hyn ychydig yn groes i'r egwyddor o uno a chyfuno adnoddau i ddiwallu anghenion polisi ar y cyd. Nid yw rhoi arian ychwanegol i'r bartneriaeth yn cymell newid yr ymddygiad hwn a gallai danseilio ymrwymiad partneriaeth os nad oes angen i bartneriaid ail-flaenoriaethu adnoddau lleol ond yn hytrach ddyrannu adnoddau cenedlaethol. O ran y BGC, mae hyblygrwydd i ddefnyddio'r arian grant presennol a ddyrennir i un o gyrrff cyhoeddus y BGC, ar yr amod ei fod yn cyfrannu at yr amcanion llesiant. Fodd bynnag, ymddengys nad yw hyn yn digwydd cymaint ag y mae rhanddeiliaid yn credu y gallai. Gwnaed yr adolygiad yn ymwybodol bod rhai

grantiau yn cael eu rhoi ar sail prif gyngor, gyda rhywfaint o gystadleuaeth am y cyllid hwnnw. Yn yr achosion hynny, nid yw hyn o reidrwydd yn gwobrwyo gweithio ar y cyd ar draws rhanbarth mewn ardal BGC.

Nodwyd o ran **cynrychiolwyr y trydydd sector ar draws y partneriaethau hyn, nad ydynt o bosibl yn cael digon o gefnogaeth i ddarparu mewnbyn a mewnwelediad strategol** ar eu cyfer yn y ffordd fwyaf effeithiol. Gallai Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector arwain hyn. Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ac a gydlynir gan Gyngorau Gwirfoddol Sirol.

Yn gyffredinol, nid oedd **cefnogaeth gyffredinol i ailstrwythuro partneriaethau'n genedlaethol**, yn bennaf oherwydd y rhesymau a nodwyd uchod. Hefyd, nid oedd cefnogaeth i unrhyw bartneriaeth benodol gael ei diddymu. Yn ogystal, teimlwyd mai arweinyddiaeth leol oedd yn y sefyllfa orau i benderfynu beth fyddai'n gweithio orau yn eu hardal. Teimlid hefyd bod dull dan arweiniad lleol yn fwy tebygol o gael cefnogaeth ar y cyd.

Roedd lleiafrif o'r rheini a gafodd eu cyfweld yn teimlo y gallai Llywodraeth Cymru gymryd cam sylweddol drwy wneud newidiadau sylfaenol i batrymau'r portffolio a'r sefyllfa partneriaeth er mwyn symleiddio'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, mae hyn yn debygol o olygu costau gwleidyddol, gweinyddol, deddfwriaethol ac ariannol sylweddol o ystyried mai ychydig o'r partneriaethau oedd yn rhai statudol. Byddai hyn yn gofyn am lawer mwy o waith ar raddfa Adolygiadau Williams a Beecham.

Felly mae angen cymaint o hyblygrwydd lleol a phrosesau rheoli a rheoleiddio cymesur â phosibl ar bartneriaethau i ganiatáu iddynt ganolbwyntio ar ganlyniadau a llai o flaenoriaethau. Byddai hyn yn galluogi'r partneriaid i chwarae mwy o ran wrth benderfynu sut i sicrhau canlyniadau ac i weithio gyda'i gilydd mewn ffyrdd sy'n fwy addas i'w gallu a'u capasiti.

Wedi dweud hynny, derbynnir nad yw gadael pethau fel ag y maent yn ffordd ragweithiol o resymoli partneriaethau. Awydd rhai partneriaid yw y gallai Llywodraeth Cymru annog a chymell newidiadau ar yr amod nad oedd angen strwythurau penodol.

DULLIAU LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD PARTNERIAETHAU

Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar ystyried alinio partneriaethau ac unrhyw gamau gweithredu i wella'r broses o alinio neu resymoli partneriaethau lle bo angen. Mae trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yn nodweddion allweddol yn y broses o alinio neu resymoli partneriaethau. Roedd yn bwysig nodi bod gwaith ehangach, mwy manwl yn mynd rhagddo yn ystod y cyfnod hwn, yn arbennig astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r gwaith sy'n ymwneud â pherthynas y BGCau a'r BPRhau.

Fodd bynnag, roedd cyfraniadau a thystiolaeth yn ystyried dulliau llywodraethu a ffactorau ehangach sy'n effeithio ar effeithiolrwydd partneriaethau. Er nad yw'r rhain i gyd yn rhan o gwmpas yr adolygiad hwn o reidrwydd, ac yn cael eu hystyried mewn adolygiadau eraill, maent wedi'u cynnwys yma er mwyn bod yn gyflawn.

Roedd yr adborth yn awgrymu y byddai llai o faich ar gyfarfodydd (o ran cyfarfodydd, teithio a pharatoi papurau), arbedion cost (a chost cyfle) canlyniadol, canlyniadau gwell i feysydd polisi perthnasol, sefyllfa partneriaeth wedi'i chysylltu'n well a ffordd well i ddinasyddion weld eu gwaith.

Cysylltiadau rhwng partneriaethau

Roedd rhai cyfweiliadau yn nodi petai'r partneriaethau yn fwy cysylltiedig – ac yn cael eu gweld yn fwy cysylltiedig – y gallai hyn ddarparu sicrwydd o gydgyssylltu priodol a chael gwared ar bryderon ynghylch dyblygu. Roedd y rheini oedd yn cael eu cyfweld ac yn aelodau o rai partneriaethau, ond nid eraill, yn aml yn teimlo nad oeddent yn gwybod am y gwaith oedd yn digwydd mewn manau eraill, hyd yn oed os oedd cysylltiadau clir. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n fwy anodd iddynt gyfrannu neu uno â'i gilydd mewn ffordd fuddiol a strategol gan nad oeddent yn gwbl ymwybodol o'r darlun llawn ar draws partneriaethau. Un enghraifft bosibl yw y gallai aelodau o'r Byrddau Cynllunio Ardal fod yn gliriach ynghylch gweithgareddau yn y Partneriaethau Iechyd Meddwl neu bartneriaethau VAWDASV ac ystyried y gorgyffwrdd mewn buddiannau.

Yn gyffredinol, y pwynt oedd y cyfweiliadau'n ei wneud oedd y **dylai ffurf ddilyn swyddogaeth**. Er bod lleihau cyfarfodydd a biwrocratiaeth yn nod pwysig, rhaid canolbwyntio'n bennaf ar sicrhau gwell canlyniadau. Yn yr un modd, roedd yn bwysig bod y bartneriaeth yn ychwanegu gwerth at y meysydd polisi, ac nad oedd yn cyfarfod dim ond gan fod angen iddi wneud hynny. Roedd hyn yn golygu bod angen i'r lefel a'r nifer cywir o gynrychiolwyr fod yn bresennol er mwyn gallu gwneud penderfyniadau effeithiol. Fe wnaeth yr adolygiad archwilio a allai unrhyw fetrigau addas (a heb fod yn fiwrocrataidd) ddatgelu'r wybodaeth hon.

Cyfarfodydd

Ni fyddai mesur nifer y cyfarfodydd a'r rhai oedd yn bresennol yn darparu gwybodaeth ynghylch a oedd y partneriaethau wedi'u symleiddio ai peidio. Efallai y bydd mwy o gyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y dyfodol, ond cyfarfodydd byrrach, mwy effeithiol gyda swyddogion o'r lefel briodol. Hefyd, mae'n gymharol hawdd

cyflawni'r nod o gael llai o gyfarfodydd, ond nid yw'n dilyn y bydd hyn yn arwain at ganlyniadau gwell.

Diwylliant partneriaeth

Un o'r prif themâu drwy gyfweiliadau rhanddeiliaid yn arbennig oedd bod y diwylliant yn cael effaith sylweddol ar weithio mewn partneriaeth. Er bod llawer yn fodlon ar rywfaint o waith partneriaeth, yn bennaf, mae sofraniaeth sefydliadol o ran penderfyniadau ac arian yn dal yn well na chydweithio gwirioneddol. Mae rhywfaint o hyn yn weithdrefnol h.y. yr angen i fod yn gyfrifol am sut mae cyllideb sefydliad yn cael ei defnyddio i gyflawni amcan sefydliadol, neu lle mae'r prosesau craffu gorau (e.e. gyda democratiaeth leol neu adrodd i Weinidogion). Fodd bynnag, mae cryn dipyn o'r amharodrwydd o ganlyniad i arweinyddiaeth bersonol. Mae gweithio mewn partneriaeth yn heriol, yn enwedig mewn diwylliant o weithio'n unigol a gwahanol setiau o atebolrwydd. Mae diwylliant wedi'i nodi mewn sawl astudiaeth o bartneriaethau - o Beecham i Williams. Mabwysiadwyd dulliau amrywiol i geisio datblygu a sefydlu diwylliant o arweinyddiaeth ar y cyd, gan gynnwys canllawiau, egwyddorion, hyfforddiant a datblygu a deddfwriaeth, yn fwyaf nodedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Atebolrwydd ar y cyd

Yn yr un modd, nododd rhai o'r cyflwyniadau a'r bobl a gafodd eu cyfweld y dylem edrych ar atebolrwydd ar y cyd y sefydliadau hyn. Hynny yw, mae sefydliadau'n teimlo eu bod yn cael eu dwyn i gyfrif drwy gymysgedd o atebolrwydd ar y cyd hirdymor yn ogystal â mesurau sefydliadol tymor byr drwy grantiau neu berfformiad yn ystod y flwyddyn. Teimlwyd bod hyn yn rhoi cymhellion cymysg i sefydliadau a fydd fel arfer yn blaenoriaethu'r mesurau tymor byrrach gan fod pwyllgorau craffu neu Lywodraeth Cymru yn eu gwerthfawrogi fwy. Yn yr un modd, er gwaethaf Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gellid dadlau bod cymdeithas a rhai gwasanaethau cyhoeddus yn dal i ganolbwyntio mwy ar atebion yn hytrach nag atal - sy'n fwy anodd eu mesur. Gallai dulliau mwy deallus o atebolrwydd helpu'r sefydliadau a'r partneriaethau hyn i ddangos sut maent yn sicrhau budd i'w cymunedau. Nodwyd y bydd y ffyrdd y caiff y partneriaethau eu mesur yn dylanwadu ar ymddygiad a diwylliant partneriaethau a'u harweinwyr.

O ran llywodraeth leol, dywedodd nifer o ymatebwyr fod natur ranbarthol nifer o bartneriaethau strategol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â sawl ymgais i ddiwygio llywodraeth leol, wedi arwain at bryderon ynghylch tansellio atebolrwydd lleol democrataidd ac effeithiwyd ar hyn ymhellach gan ddiffyg eglurder o ystyried patrwm cymhleth y partneriaethau, a effeithiodd ar waith craffu.

Rhagnodi a Rheoleiddio Cymesur

Roedd cyfraniadau rheoleiddwyr i'r adolygiad yn aml yn canolbwyntio ar eu pryderon ynghylch effeithiolrwydd y partneriaethau oedd yn cael eu hadolygu. Roeddent yn pwysleisio'r angen am well diffiniad o ganlyniadau gan bartneriaethau ac yn cwestiynu a yw partneriaethau'n rhoi digon o ystyriaeth i'r ffordd y maent yn perfformio. Roedd rhai o'r farn bod **partneriaethau, yn enwedig y rhai hirsefydlog neu a sefydlwyd gan bolisi neu statud Llywodraeth Cymru, yn cyflawni pethau eu hunain, yn hytrach na'u bod yn ffordd o gyflawni rhywbeth arall.** Mae gweinyddu a rheoleiddio yn mynd yn feichus ac yn anghymesur, gan ddargyfeirio egni ac adnoddau oddi wrth gyflawni canlyniadau.

Mae llawer o'r rhai sy'n gyfrifol am gydlynu neu gefnogi'r partneriaethau yn teimlo bod gormod o reoleiddio a gormod o ragnodi; mae cyfleoedd a gwerth hyblygrwydd lleol yn cael eu tanseilio oherwydd beichiau gan reoleiddwyr neu ddisgwyliadau neu flaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae llawer o gymhlethdod yn deillio o'r rheoliadau manwl a'r gofynion adrodd a osodir ar sefydliadau lluosog a gellid sicrhau gwelliannau drwy lacio'r manylion a'r cwmpas. Byddai hyn yn galluogi canolbwyntio mwy ar ganlyniadau a llai o flaenoriaethau a fyddai'n helpu'r broses o wneud penderfyniadau ac effeithiolrwydd.

Aelodaeth

Cododd rhai yn y cyfweiliad a'r cyflwyniadau bryderon penodol am yr **aelodaeth – neu'r diffyg aelodaeth – ar rai partneriaethau penodol**. Roedd awydd arbennig gan rai i gael eu cynnwys ar BGC neu BPRh gan nodi'r sail resymegol dros hynny. Fodd bynnag, roedd cyfweiliadau hefyd yn nodi y gallai maint bwrdd yn sgil hyn ei wneud yn amhosib ei reoli ac yn llai strategol ei natur. Er bod deddfwriaeth, mewn rhai achosion, yn nodi aelodaeth graidd partneriaethau, dylid defnyddio disgresiwn lleol i'w adolygu ac, os oes angen, ymestyn yr aelodaeth fel y bo'n briodol.

Mae cysondeb sefydliadol wrth weithio mewn partneriaeth hefyd yn broblem – gyda lle i wahanol gynrychiolwyr o sefydliad fynd i wahanol gyfarfodydd partneriaeth; a chynrychiolwyr gwahanol yn eistedd ar wahanol bartneriaethau. Gall y ddau ei gwneud yn anodd sicrhau bod dulliau cyson yn cael eu mabwysiadu o ran materion.

Ymwybyddiaeth a chyfranogiad dinasyddion

Roedd cydnabyddiaeth gyffredinol o'r angen i wella ymgysylltiad dinasyddion â phartneriaethau a'u dealltwriaeth ohonynt. Nododd y rheini a gafodd eu cyfweld nad oedd yn glir ym mhob partneriaeth ble roedd llais y dinesydd yn cael ei werthfawrogi neu ei geisio. Yn dilyn hynny, mae'n debyg bod dealltwriaeth dinasyddion o rai o'r partneriaethau hyn yn gyfyngedig, a dweud y lleiaf. Er bod dinasyddion yn tueddu i gael eu cynnwys fwy drwy wasanaethau cyhoeddus cyfansoddol, roeddent yn dymuno gweld tryloywder o ran gwaith partneriaethau, a hefyd eglurder o ran pwrpas ac effaith. Awgrymwyd y dylai'r partneriaethau asesu eu hunain i weld a allent wella eu hymgysylltiad â dinasyddion ac ymateb yn unol â hynny. Mae hyn yn gwbl gyson â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

ARGYMHELLION

Mae'r argymhellion wedi'u grwpio dan bedair thema allweddol a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr adolygiad. Lle nad yw'r perchennog yn cael ei enwi, mae'r tîm adolygu yn credu bod angen ymdrech ar y cyd i gyflawni'r canlyniadau allweddol o resymoli a symleiddio'r sefyllfa bartneriaeth.

Thema A: Egluro sefyllfa'r bartneriaeth strategol

Mae'n bwysig ystyried sefyllfa'r bartneriaeth strategol bresennol pryd bynnag y mae gofynion newydd i wasanaethau cyhoeddus weithio mewn partneriaethau yn dod i'r amlwg - er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gymhlethdod diangen, neu ddyblygu gweithgarwch, yn cael ei ychwanegu.

Argymhelliad 1. Ni ddylid sefydlu na gofyn am unrhyw bartneriaethau newydd heb gyfeirio at y sefyllfa bresennol nac ystyried a all partneriaeth sy'n bodoli eisoes sicrhau'r canlyniad gofynnol.

Argymhelliad 2. Ni ddylid rhoi unrhyw swyddogaethau newydd i bartneriaethau sydd eisoes yn bodoli heb ystyried pa rwymedigaethau y gellir eu hadolygu neu eu dileu neu pa adnoddau ychwanegol y gallai fod eu hangen.

Argymhelliad 3. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried a all adrannau leihau'r trefniadau partneriaeth a sefydlwyd i weinyddu rhaglenni grant penodol.

Thema B: Defnyddio hyblygrwydd i ddarparu atebion lleol i gysoni partneriaethau

Mae'r adolygiad wedi dangos drwy gydol y broses nad oes consensws ar y ffordd orau o resymoli partneriaethau. Yn wir, prin oedd y farn gyson. Ymddengys mai'r ateb gorau yw'r hyn sy'n gweithio orau mewn rhanbarth penodol ar sail blaenoriaethau lleol a chysylltiadau sy'n bodoli eisoes. Byddai ateb deddfwriaethol i resymoli partneriaethau yn ystod y cam hwn yn anghymesur ac ni fyddai'n cael fawr ddim effaith gan mai ychydig o'r partneriaethau sydd â sail statudol ond dylai pob partner roi blaenoriaeth i ddod o hyd i'w atebion ei hun.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at Gadeiryddion pob partneriaeth i egluro a chadarnhau bod hyblygrwydd i bartneriaethau adolygu eu trefniadau a'u haliniad eu hunain fel y bo'n briodol – o ran polisi a daearyddiaeth

Argymhelliad 5. Dylai pob partneriaeth strategol mewn ardal geisio chwarae rhan weithredol er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei chysoni'n nes fel bod llai o bartneriaethau. Mae gan y partneriaethau strategol amlbwrpas (fel BGCau a BPRhau) rôl arweiniol naturiol wrth gychwyn hyn.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru gynnig ffordd fwy hwylus i bartneriaethau adolygu sut maent yn cyd-fynd â'u patrymau.

Argymhelliad 7. Llywodraeth Cymru i archwilio a chyfleu'r ffordd orau o ddsbarthu arian ar draws partneriaethau strategol lle y gallai fod yn synhwyrol gwneud hynny ac ystyried gallu partneriaid i gefnogi'r partneriaethau hyn.

Argymhelliad 8. Dylai pob partneriaeth strategol ymrwmo i ddatblygu diwylliannau cydweithredol ar draws y sefydliadau cyfansoddol, a buddsoddi ynddynt.

Thema C: Nodi gwaith ac effaith partneriaethau yn glir

Mae gan ddinasyddion a'r rhai sydd â chyfrifoldeb i gynrychioli dinasyddion a chraffu ar waith gwasanaethau cyhoeddus hawl i ddeall sut y mae gwasanaethau cyhoeddus ac unrhyw bartneriaethau yn eu gwasanaethu.

Argymhelliad 9. Dylai pob partneriaeth strategol gyhoeddi gwybodaeth sylfaenol, hawdd cael gafael arni, ar-lein, a fydd yn amlinellu'r cylch gorchwyl, gweledigaeth, aelodaeth, adrodd ar ganlyniadau/cynnydd a sut y gall dinasyddion neu gymunedau gymryd rhan.

Thema D: Adolygiad Cymesur Cyfnodol

Dylai partneriaethau gymryd rôl arweiniol wrth ddod o hyd i'w hatebion eu hunain, gan gynnig cymorth a hyfforddiant i gefnogi newidiadau. Mae'r rhan fwyaf o bartneriaethau yn adrodd ar gyflawni amcanion neu ganlyniadau, mae llawer ohonynt yn llunio adroddiadau blynyddol, ac mae llawer ohonynt eisoes yn adolygu perthnasedd eu trefniadau llywodraethu'n barhaus.

Mae'r Cyngor Partneriaeth, gyda chynrychiolwyr o wasanaethau cyhoeddus sy'n cydweithio drwy ystod o bartneriaethau, mewn sefyllfa dda i gyfeirio materion sy'n peri pryder gan bartneriaethau lleol neu ranbarthol at sylw Gweinidogion Cymru.

Argymhelliad 10. Fel rhan o'r cylch arferol o adolygu ac adrodd, dylai pob partneriaeth strategol geisio ymgorffori adolygiadau cyfnodol o'u cylch gorchwyl, eu trefniadau llywodraethu, eu haelodaeth a'u haliniad â grwpiau neu bartneriaethau eraill.

Argymhelliad 11. Y Cyngor Partneriaeth i adolygu'r sefyllfa bartneriaeth o bryd i'w gilydd i ystyried a oes angen newid un o bolisïau neu ddeddfwriaethau Llywodraeth Cymru.

ANNEX A – JOINT LETTER FROM THE LEADER OF THE WLGA AND THE MINISTER FOR HOUSING AND LOCAL GOVERNMENT.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

To: Leaders of Local Authorities
Chairs of Public Bodies
Chief Executives of Public Bodies

13 June 2019

Dear colleague,

Review of Strategic Partnerships

We believe the time is right to undertake a review of the strategic partnership landscape in Wales – working together to identify the key areas where there is felt to be unnecessary complexity or duplication and to identify opportunities for simplification and rationalisation.

The review will seek to identify:

- Action which can be taken immediately by the relevant partnerships to rationalise partnerships/improve alignment
- Action the Welsh Government can take immediately to rationalise partnerships/improve alignment
- Action which would require legislative change

This is something which should be done in partnership, with those who are involved in strategic partnerships or have an interest in the effective and impact of these partnerships.

As a first step we are keen to get a view from you, as the people directly involved in these partnership arrangements, on where we should target our attention. What do

you see as the main challenges, and opportunities for simplification and rationalisation?

We are conscious that many areas have already conducted local reviews of their partnership arrangements, or fed into wider national reviews such as that undertaken on community safety, and would welcome any insight you have gained from these reviews – both in terms of key areas to look at and action already taken locally to rationalise partnerships/improve alignment that other areas could learn from. We are aware that other national reviews of specific partnership arrangements are currently being undertaken and these will feed into our review.

The review will be undertaken as a proportionate and pragmatic task and finish piece of work, rather than a lengthy exercise – taking around six months from instigation to completion.

We would welcome any views you have **by 5 July**. We are then envisaging a period of targeted engagement over the summer before providing a final report with recommendations to the meeting of the Partnership Council for Wales on 2 October.

I attach the terms of reference for information.

If you would like to discuss the review please contact claire.germain@gov.wales or stephen.jones@wlga.gov.uk.

Yours sincerely,



Councillor Debbie Wilcox
Leader of the WLGA



Julie James AC/AM
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

CYLCH GORCHWYL

ADOLYGIAD O STRWYTHURAU PARTNERIAETH STRATEGOL – CYLCH GORCHWYL

Cefndir:

1. Ystyriodd y Gweithgor ar Lywodraeth Leol y gwaith sy'n dod i'r amlwg ar fapio partneriaethau yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr ac roedd awydd i weld gwaith pellach yn cael ei wneud i adolygu'r sefyllfa bartneriaeth. Mae'r canfyddiad o sefyllfa bartneriaeth orlawn hefyd wedi cael ei godi'n gyson gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.

2. Bydd amseriad yr adolygiad yn llywio'r gwaith o ddatblygu cynigion gweithio rhanbarthol ar gyfer y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau. Bydd cynnal yr adolygiad yn cynnwys ymgynghori ag awdurdodau lleol a'u partneriaid ar sail ranbarthol i gasglu tystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio o ran trefniadau partneriaeth strategol ac i ba raddau y dylid symleiddio'r sefyllfa bartneriaeth strategol.

Diben yr adolygiad:

3. Diben yr adolygiad fydd adolygu'r sefyllfa bartneriaeth ac ystyried a oes unrhyw gymhlethdod neu ddyblygu diangen; a nodi cyfleoedd ar gyfer symleiddio a rhesymoli.

4. Dyma fyddai'r amcanion

- Nodi trefniadau partneriaeth allweddol lle teimlir bod cylchoedd gwaith sy'n gorgyffwrdd.
 - o Ystyried a yw'r dibenion y cafodd y trefniadau partneriaeth hyn eu sefydlu ar eu cyfer yn parhau'n ddilys;
 - o Ystyried a yw'r dulliau ar gyfer cyflawni'r dibenion hyn (a'r trefniadau ategol) yn parhau'n briodol neu a fyddai modd eu cyflawni mewn ffordd fwy effeithlon/effeithiol
 - o Ystyried pa drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd sydd eu hangen
- Cyflwyno argymhellion ar y canlynol:
 - o Camau ymarferol y gall y partneriaethau perthnasol eu cymryd ar unwaith i resymoli partneriaethau/gwella aliniad o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol
 - o Camau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd ar unwaith i resymoli partneriaethau/gwella aliniad o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol
 - o Unrhyw agweddau a fyddai'n gofyn am newid deddfwriaethol

Cwmpas yr adolygiad:

5. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar "bartneriaethau strategol". Y dasg gyntaf ar gyfer yr adolygiad fydd cytuno ar ddiffiniad o bartneriaeth strategol.

6. Bydd yr adolygiad yn ystyried adolygiadau eraill o bartneriaethau penodol sy'n cael eu comisiynu'n genedlaethol, er enghraifft:

- Adolygiad Llywodraethu Aml-lefel OECD, sydd wedi'i gomisiynu i lywio'r broses o roi'r 'Cynllun Gweithredu Economaidd' ar waith fel rhan o 'Ffyniant i Bawb' a datblygu dull buddsoddi rhanbarthol newydd yn lle Cronfeydd Strwythurol yr UE ar ôl Brexit.
- Adolygiad Annibynnol o'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol
- Astudiaeth Llywodraeth Leol SAC ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth
- Gwaith arolygiaeth ar y cyd ar gynnydd modelau iechyd a gofal cymdeithasol lleol newydd, ac effeithiolrwydd prosesau cydweithio Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Dull:

7. Bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal fel ymdrech ar y cyd â llywodraeth leol

8. Er mwyn llywio ei ystyriaethau, rhagwelir yn fras y byddai angen i'r adolygiad sicrhau'r canlynol:

- Casglu tystiolaeth am drefniadau partneriaeth, a sut maent yn gweithredu/alinio ar hyn o bryd (gan gynnwys pwyso a mesur adolygiadau o drefniadau rhanbarthol sydd eisoes wedi digwydd)
- Ymgysylltu â'r rhai sy'n rhan o'r trefniadau partneriaeth i ofyn eu barn
- Ymgysylltu ag eraill sydd â diddordeb mewn effeithiolrwydd ac effaith y partneriaethau hyn
- Cynnwys y Gweinidogion a'r swyddogion polisi perthnasol sydd â diddordeb ym mhob partneriaeth i ofyn eu barn

9. Gallai ymgysylltu fod ar ffurf cyfres o ddigwyddiadau rhanbarthol, tebyg i'r rhai a gynhaliwyd yn 2016 a lywiodd y Papur Gwyn Cadernid ac Adnewyddiad, yn ogystal â chyfweliadau unigol gydag Arweinwyr, Gweinidogion ac eraill sy'n ymwneud â'r trefniadau partneriaeth sy'n cael eu harchwilio neu â diddordeb ynddynt.

Llywodraethu:

10. Bydd ysgrifenyddiaeth ar y cyd yn cael ei ffurfio i oruchwylio'r gwaith a fydd yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru a CLILC. Bydd cymorth ychwanegol ar gyfer casglu tystiolaeth ac ymgysylltu yn cael ei sicrhau o fewn llywodraeth leol yn ogystal â Llywodraeth Cymru.

11. Bydd yr adolygiad yn adrodd i Gyngor Partneriaeth Cymru, gyda diweddariad ar y cynnydd i'r cyfarfod ar 12 Mehefin ac adroddiad terfynol i'r cyfarfod ar 2 Hydref.

Amserlen:

12. Rhagwelir y byddai'r adolygiad yn cael ei gynnal fel darn o waith gorchwyl a gorffen cymesur/pragmatig, yn hytrach nag ymarfer hirfaith - gan gymryd tua chwe mis o'i gychwyn i'w gwblhau.

ATODIAD B - ADOLYGIAD O BARTNERIAETHAU STRATEGOL – Y DYSTIOLAETH A GASGLWYD

Cais am dystiolaeth – ymatebion ysgrifenedig – Gorffennaf 2019

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd (y cyngor a phartneriaid)
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Bro Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Hywel Dda
- Bwrdd Iechyd Ymddiriedolaeth Felindre
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- BPRh Gogledd Cymru
- BCA Gwent
- Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Gwasanaeth Tân De Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru
- Heddlu De Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (2 gyflwyniad)
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Estyn
- Arolygiaeth Iechyd Cymru
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Confederasiwn GIG Cymru
- Gofal a Rhannu Cymru
- Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
- WCVA
- Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD)

Pwy gafodd eu cyfweld:

- Carol Shillabeer – Cadeirydd, BPRh Powys a Phrif Weithredwr Bwrdd Addysgu Iechyd Powys
- Eleri Thomas – Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd, Gwent
- Adrian Crompton – Archwilydd Cyffredinol
- Rachel Rowlands – Cadeirydd, BPRh Morgannwg Cwm Taf a Phrif Weithredwr Age Connect M
- Kath Peters – Swyddog Polisi, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Ann Lloyd – Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Sally Holland - Comisiynydd Plant
- Peter Davies – Cadeirydd, WCVA
- Alun Michael – Comisiynydd Heddlu a Throsedd, De Cymru
- Sue Cooper – DSS, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Llywydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Helena Herklots – Comisiynydd Pobl Hŷn
- Michelle Morris – Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Dilwyn Owen Williams – Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd
- Ian Bancroft – Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Teresa Owen, Cadeirydd, BPRh Gogledd Cymru a Chyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Nicola Stubbins, Cadeirydd, Grŵp Arweinyddiaeth, BPRh Gogledd Cymru a Chyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau, Cyngor Sir Ddinbych

Trafodaethau a chyfarfodydd ychwanegol:

- Penaethiaid yr Arolygiaeth
- Penaethiaid Polisi Awdurdodau Lleol
- Grŵp Polisi Gwasanaethau Cymdeithasol (Aelodau Cabinet awdurdodau lleol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ac ADSS)
- Aelodau Conffederasiwn GIG Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Cartrefi Cymunedol Cymru
- Y Cyngor Partneriaeth a'r Is-grŵp Llywodraeth Leol

**ATODIAD C - ADOLYGIAD O BARTNERIAETHAU STRATEGOL – STATWS DEDDFWRIAETHOL
PARTNERIAETHAU STRATEGOL**

Partneriaeth	Statudol?	Darpariaeth	Pwrpas	Partneriaid	Patrwm
Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus	Ydy	Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (2015), Rhan 4	Rhaid i bob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal drwy gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant.	<u>Statudol</u> Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol, yr awdurdod Tân ac Achub perthnasol, Cyfoeth Naturiol Cymru.	Awdurdodau Lleol (yn gyffredinol)
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol	Ydy	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014), Rhan 9	Rhaid i awdurdodau lleol gydweithio â Byrddau Iechyd Lleol yn well a gweithio gyda phartneriaid eraill sy'n darparu gofal a chymorth.	Bwrdd Iechyd Lleol, Awdurdodau Lleol (Gofal Cymdeithasol, Addysg, Tai), y trydydd sector, gofalwyr, dinasyddion	Bwrdd Iechyd
Partneriaeth Diogelwch Cymunedol	Ydy	Adrannau 5-7 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998	Mae gan brif weithredwyr awdurdodau lleol a byrddau iechyd, prif gwnstabiliaid a phrif swyddogion tân a phrif swyddogion y gwasanaethau prawf gyfrifoldeb i weithio mewn partneriaeth i atal a lleihau troseddau ac anhrefn, ymddygiad gwrthgymdeithasol, ymddygiad sy'n cael effaith	Awdurdodau Lleol, yr Heddlu, Cyfiawnder Ieuencid, y Bwrdd Cynllunio Ardal, y Gwasanaeth Tân ac Achub, y Gwasanaeth Prawf a'r Bwrdd Iechyd	Awdurdod Lleol

			andwyol ar yr amgylchedd, camddefnyddio sylweddau ac aildroseddu.		
Partneriaeth diogelu oedolion	Ydy	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014), Rhan 134	Mae adran 135 (2) o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 2014 yn pennu amcanion y Bwrdd Diogelu Oedolion, sef amddiffyn oedolion yn ei ardal sydd ag anghenion gofal a chymorth ac sy'n cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, neu mewn perygl o gael hynny'n digwydd iddynt, a hefyd atal oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.	Awdurdodau Lleol, Gwasanaethau Cymdeithasol, Bwrdd Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Swyddfa Comisiynydd Troseddau'r Heddlu, Tai, Sefydliadau'r Trydydd Sector	Bwrdd Iechyd
Partneriaeth diogelu plant	Ydy	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014), Rhan 134	Mae adran 135 (2) o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 2014 yn pennu amcanion y Bwrdd Diogelu Plant, sef amddiffyn plant yn ei ardal sy'n cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, neu mewn perygl o gael hynny'n digwydd iddynt, a hefyd atal plant yn ei ardal rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.	Awdurdodau Lleol, Gwasanaethau Cymdeithasol, Bwrdd Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Swyddfa Comisiynydd Troseddau'r Heddlu, Tai, Sefydliadau'r Trydydd Sector	Bwrdd Iechyd
Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol	Nac ydy	Roedd y Datganiad Polisi ar Sgiliau (a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014) yn nodi'r cyfeiriad	Cyrff gwirfoddol yw Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i sbarduno	Busnesau, cyrff diwydiant, sefydliadau addysg uwch a	Gogledd, de ddwyrain, de orllewin a

		polisi ar gyfer darparu sgiliau rhanbarthol, dan y pennawd "Sgiliau sy'n ymateb i angen lleol" a chyhoeddi 3 Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol	buddsoddiad mewn sgiliau drwy ddatblygu ymatebion yn seiliedig ar angen lleol a rhanbarthol. Maent yn llunio Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol i ddadansoddi a dylanwadu ar y broses o ddarparu sgiliau ar sail angen economaidd rhanbarthol, er mwyn cefnogi twf a phrosiectau seilwaith allweddol ym mhob rhanbarth. Mae'r Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol yn adeiladu ar y blaenoriaethau a nodwyd gan Ardaloedd Menter, y Fargen Ddinesig, Dinas-ranbarthau a chydweithio trawsffiniol, ac yn eu cefnogi.	phellach, darparwyr hyfforddiant, ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru	chanolbarth Cymru
Bargeinion Dinesig / Bwrdd Uchelgais	Nac ydy	Bargeinion Dinesig ac Economiâu Rhanbarthol Cymru		Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, yr Adran Gwaith a Phensiynau, busnesau, cyrff y diwydiant, sefydliadau addysg uwch a phellach, darparwyr hyfforddiant, ysgolion	
Pwyllgor Cydweithredu Rhanbarthol (cefnogi pobl)	Nac ydy	Sbarduno drwy amodau cyllid grant	Nod a ffocws cyffredinol y RCC yw darparu cyfeiriad strategol a phrosesau craffu ar gyfer y rhaglen, ar lefel ranbarthol.	Awdurdodau Lleol, lechyd, y Gwasanaeth Prawf, Darparwyr	6 pwyllgor yn cwmpasu'r 22 o ardaloedd ALI – yn unol

O 1 Ebrill 2020, Grwpiau Cydweithredol Cefnogi Tai Rhanbarthol		Manylion yn y Canllaw i'r Rhaglen Cefnogi Pobl	Llunio'r Cynllun Strategol Rhanbarthol, gan gynnwys Cynllun Gwariant, i'w rannu â Byrddau Gwasanaeth Partneriaeth Rhanbarthol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Llywodraeth Cymru	Gwasanaethau Cefnogi Pobl a Landlordiaid	â'r patrwm BILI yn fras
Bwrdd Cynllunio Ardal	Nac ydy, er eu bod wedi dwyn trefniadau blaenorol a chanddynt sail statudol ynghyd	Sicrhau cyllid grant - Y Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau (SMAF) Sefydlwyd yn 2010 fel rhan o'r trefniadau newydd i gyflawni Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru - 'Gweithio gyda'n gilydd i leihau niwed'.	Bwriad y Byrddau Cynllunio Ardal oedd darparu fframwaith rhanbarthol i gryfhau prosesau gweithio mewn partneriaeth ac arweinyddiaeth strategol wrth gyflawni'r strategaeth camddefnyddio sylweddau; a gwella swyddogaethau allweddol cynllunio, comisiynu a rheoli perfformiad.	Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Darparwyr Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau, yr Heddlu, Cyfiawnder Ieuenctid, y Gwasanaeth Prawf, Gwasanaeth Erlyn y Goron	ALI
VAWDASV	Ydy	Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, a5, a15 (canllawiau statudol) Nodiadau cyfarwyddyd statudol y dylent geisio gweithio'n rhanbarthol ar batrwm y Bwrdd Cynllunio Ardal. Mae gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol hefyd gyfrifoldeb statudol i leihau ac atal	Yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol baratoi strategaeth ar gyfer ardal yr awdurdod lleol i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV).	Awdurdodau Lleol, yr Heddlu, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau, y Bwrdd Iechyd, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, y Gwasanaethau Prawf, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Pwyllgor Cydweithredol	ALI/BILI

		pob math o droseddu ac anrhefn gan gynnwys VAWDASV		Rhanbarthol Cefnogi Pobl, y Gwasanaeth Tân ac Achub, Byrddau Diogelu, partneriaid sector arbenigol VAWDASV a sefydliadau'r sector gwirfoddol	
--	--	--	--	--	--

ANNEX D – LETTER FROM DMHSS AND DMHLG

12 July 2019

Dear all

On the 20th March 2019, we held an event in Cardiff to take stock of how Public Services Boards (PSB) and Regional Partnership Boards (RPB) are working together in practice. We would like to thank everyone that attended the event for sharing experiences, and participating in the rich discussions which took place throughout the day.

The two pieces of legislation which underpin the Boards are complementary. The Social Services and Well-Being Act focuses on the health and social care needs of individuals in a region to promote their individual well-being. The Well-being of Future Generations Act addresses the wider determinants of well-being including social, economic, environmental and cultural well-being.

Both Acts provide us with a common set of whole system, cross sector principles, namely; long-termism, prevention, collaboration, integration and involvement. However, while the Boards have shared areas of interest, they do have distinct roles, and different purposes and this is reflected in their work and membership.

The joint event emphasised the importance of Boards seeking to align their work – so they complement rather than duplicate each other. The event was independently facilitated, and we have now reflected on the key themes and observations from the day.

The key message from the day was clear - the way that Boards arrange their work so that it complements rather than duplicates is best considered and determined locally, where the needs and requirements of the local population are best understood.

The extent to which RPBs and PSBs have interacted has varied across Wales. The consensus on the day was that there is not a single model that fits all. There was also discussion that getting this right had proved more challenging for some regions than others. However, partners did convey a clear intention to build stronger and clearer links between the Boards in the future.

Partners were positive that this was achievable as in many areas there is already good progress in developing compatible assessments, plans and ways of working. There was also a clear view that any further legislation or guidance in this area be kept to a minimum, and that the focus should now be on delivery.


Both boards are already in a good position to build on improved communication and alignment given their cross over in relation to their membership. Both include representation from health, local government and third sector and a number of these

representatives are members of both boards. We can learn from such approaches to develop a seamless link between the boards' priorities and activities.


Welsh Government is committed to providing the most effective support to both boards enabling them to improve their alignment through straightforward means. To support this process the Welsh Government confirms its commitment to:

- supporting the work already underway to improve communication and alignment internally and with the Boards;
- scheduling regular meetings between the chairs of the PSBs and RPBs, and expand these discussions to the wider bodies which support the delivery of the Boards across Wales in order to share further learning and raise the awareness of different successful approaches; and
- establishing a joint development programme for members of both Boards focusing on the demands of operating as part of multi- agency partnerships.

In recognition of this we expect and encourage both RPBs and PSBs to work together and provide a coherent local and regional response to the wellbeing needs of individuals, which will include preventing poor health and wellbeing in our communities.



Hannah Blythyn AC/AM
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth
Leol
Deputy Minister for Housing and Local
Government



Julie Morgan AC/AM
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gofal
Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social
Services

ATODIAD E - Y BERTHYNAS RHWNG Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS A'R BYRDDAU PARTNERIAETH RHANBARTHOL



Social Services and Well-being (Wales) Act 2014: Regional Partnership Boards

Part 9 of the Act aims to improve outcomes and well-being of people, as well as improving the efficiency and effectiveness of health and care service delivery through principles of well-being, co-operation, prevention and citizen control.

Established seven Regional Partnership Boards (RPBs) to bring together local authorities, local health boards, the third sector and service users and carers to co-operate together in planning and delivering services in relation to adults with needs for care and support, carers and children.

Regional Partnership Boards operate on the footprints of each of the seven Health Boards in Wales.

RPBs must:

- Produce a regional population assessment
- Produce a regional area plan
- Provide a regional annual report
- Demonstrate citizen engagement and co-production.

Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015: Public Service Boards

The Act aims to ensure that public bodies carry out "sustainable development" and improve the economic, social, environmental and cultural well-being of Wales, taking account of prevention, collaboration, integration, involvement and adopting a long term view.

Established Public Service Boards (PSBs) to bring together a range of public bodies to collectively improve the economic, social, environmental and cultural well-being of their area.

Most PSBs operate on local authority footprints although some have decided to merge together. There are currently 19 PSBs in Wales.

PSBs must:

- Produce an assessment of local well-being
- Produce a local well-being plan
- Provide an annual report
- Set out how they intend to involve people.

RPB Membership
Health, Social Care, Education, Housing, Third Sector, Carers, Citizens.

PSB Membership
Statutory members: Local Authority(ies), Local Health Board, Natural Resources Wales, Fire and Rescue.
Statutory invitees: Welsh Ministers, Police and Crime Commissioners, Police, Probation services, Third sector.

